

## LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

### Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd yn Aberystwyth Ddydd Gwener, 18 Medi 2015

#### Presennol:

Yr Athro Syr Deian Hopkin, Llywydd	Colin R. John, Trysorydd	Hugh Thomas
Tricia Carter, Is-lywydd	Enid Morgan	Huw Williams
Gareth Haulfryn Williams	Roy Roberts	Michael Trickey
Phil Cooper		

#### Aelodau staff:

David Michael	Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol
Avril Jones	Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus
Pedr ap Llwyd	Ysgrifennydd a Phennaeth Llywodraethiant

#### Hefyd yn bresennol:

Linda Tomos	MALD
Rebecca Johnson	MALD
Doug Jones	Cyngor Whitley
Siân Thomas	Cyngor Whitley
Annwen Isaac	Staff
Carol Edwards	Staff
Mererid Jones	Staff
Craig Duggan	BBC
Rhys Huws	Cyfieithydd

#### 1.1 Croeso'r Llywydd ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Llywydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod, ac yn arbennig Mark Wheeler a Piers Wilson o Gwmni Investec, sef buddsoddwyr arian preifat y Llyfrgell. Nododd y Llywydd fod Investec wedi rhoi cyflwyniad i'r Ymddiriedolwyr ar berfformiad dau bortffolio'r Llyfrgell yn ystod 2014-2015 y diwrnod cynt ac fe'u gwahoddwyd i roi cyflwyniad byrrach i'r cyfarfod hwn o'r Bwrdd. Fe gafwyd cyflwyniad byr gan y ddau a bu iddynt ymateb i rai sylwadau a chwestiynau gan yr Ymddiriedolwyr.

Diolchwyd i Mark Wheeler a Piers Wilson am eu cyflwyniad ac fe gadawsom y cyfarfod.

Nododd y Llywydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Enid Morgan cyn y byddai ei chyfnod fel Ymddiriedolwr yn dod i ben ar 30 Medi 2015. Diolchodd iddi am ei gwasanaeth rhagorol dros gyfnod o wyth mlynedd, ac fe ategwyd hynny gan yr holl aelodau.

Roedd Roy Evans a Wyn Penri Jones wedi ymddiheuro am eu habsenoldeb.

## **1.2 Datgan Buddiannau**

Datganodd Gareth Haulfryn Williams fudd yn y materion hynny y mae'r Llyfrgell yn eu trafod o bryd i'w gilydd â Chronfa Dreftadaeth y Loteri gan ei fod yn achlysurol yn cyflawni rôl ymgynghorol i'r Gronfa.

Datganodd Tricia Carter fudd yn y materion hynny y mae'r Llyfrgell yn eu trafod o bryd i'w gilydd â Llywodraeth Cymru gan ei bod yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Bwyllgor Llywodraethiant Corfforaethol Adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Llywodraeth Cymru.

Datganodd Dr Susan Davies fudd yn y materion hynny y mae'r Llyfrgell yn eu trafod o bryd i'w gilydd â Chronfa Dreftadaeth y Loteri gan ei bod o bryd i'w gilydd yn cynorthwyo sefydliadau eraill gyda cheisiadau.

Datganodd Michael Trickey ei fod yn briod ag aelod o Gabinet Llywodraeth Cymru.

Datganodd Huw Williams ei fod yn aelod o Geldards LLP ac ers 1 Medi 2015 mae Geldards wedi bod yn un o nifer o gwmnïau a benodwyd i Fframwaith Cyfreithwyr Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru y mae'r Llyfrgell yn bwriadu ei ddefnyddio i fodloni ei gofynion o ran gwasanaethau cyfreithiol. Hefyd, mae Geldards yn parhau i gynghori'r Llyfrgell ar nifer o faterion parhaus dan gytundeb gwasanaethau cyfreithiol blaenorol a ddyfarnwyd trwy dendr cystadleuol.

Yn ychwanegol, fe wnaeth Huw Williams datganiadau diddordeb penodol ynghylch y materion canlynol, a oedd yn codi o bapurau'r Cyfarfod Agored:

### **Eitem rhif 2.2 ar yr agenda – Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC)**

Roedd Huw Williams wedi datgan budd yn y mater hwn yn flaenorol, fel rhagofal, rhag ofn bod Geldards LLP yn cael cyfarwyddyd i weithredu ar ran CBHC. Adroddwyd nad oedd hyn yn wir bellach gan fod CBHC wedi sicrhau cynrychiolaeth gan gyfreithwyr eraill. O ganlyniad, nid oedd Huw Williams yn teimlo bod yna wrthdaro rhwng buddiannau yn y mater hwn a chynigodd aros ar gyfer yr eitem hon.

### **Eitem rhif 2.2 ar yr agenda – Materion yn ymwneud â'r tân**

Nododd Huw Williams fod Geldards LLP yn cynghori'r Llyfrgell, dan delerau cytundeb gwasanaethau cyfreithiol, ar faterion yn ymwneud â'r tân ym mis Ebrill 2013 yn y Llyfrgell. Nid oedd a wnelo'r adroddiad cyfreithiol cyfrinachol a gyflwynwyd i'r aelodau ag unrhyw faterion yn ymwneud â thelerau penodiad Geldards i gynghori'r Llyfrgell ar y mater yma ac felly, fel mewn cyfarfodydd blaenorol, ni themlai Huw Williams fod angen gadael y cyfarfod tra bod yr eitem hon dan ystyriaeth.

### **Eitem rhif 2.6 ar yr agenda – Adroddiad PwC**

Fel y nodwyd yn adroddiad PwC, roedd Geldards yn cynghori'r Llyfrgell yn ystod y trafodion a oedd yn cael sylw yn yr adolygiad allanol. Gan yr ymddengys bod yr adroddiad cyn y Cyfarfod Agored yn adroddiad cynnydd, er gwybodaeth, nid oedd Huw Williams yn bwriadu gadael y cyfarfod onid oedd y Llywydd yn ei gynghori i wneud hynny dan Reoliad 9.4. Ni ofynnodd y Llywydd i Huw Williams adael y cyfarfod.

## **Datganiad yn ymwneud â'r Agenda Cyfrinachol**

### **Adroddiad y Tasglu**

Yn absenoldeb unrhyw bapurau, nid oedd Huw Williams yn gallu gwneud unrhyw ddatganiad o fudd ymlaen llaw, ond y byddai'n gwneud hynny wrth iddynt godi mewn perthynas â Geldards ac Adroddiad PwC, a gadael y cyfarfod yn ogystal, wrth ystyried yr Agenda Cyfrinachol.

### **1.3 Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

## **Adran 2 Materion 'byw' ac yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf**

### **2.1 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

Yn dilyn trafodaeth fer ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a phenawdau telerau a'r brydles, fe gymeradwywyd y ddau. Bydd y Tîm Gweithredol nawr – mewn ymgynghoriad â Swyddogion y Bwrdd, os bydd raid – yn bwrw ymlaen â'r trefniadau a fydd yn arwain at adleoli'r Comisiwn i'r Llyfrgell.

Roedd yn dda gan yr Aelodau glywed gan y rheolwyr fod y berthynas rhwng y Llyfrgell a'r Comisiwn yn un hynod adeiladol a bod hynny wedi arwain at drafodaethau hwylus a buddiol i'r ddwy ochr.

### **2.2 Materion yn ymwneud â'r adeilad**

Cyflwynodd David Michael adroddiad a ddangosai fod y Llyfrgell ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y posibilrwydd o gael cyllid cyfalaf trwy gyfrwng Grant Cymorth er mwyn mynd i'r afael â'r dirywiad yng nghyflwr yr adeilad. Meddai David Michael ymhellach: roedd y Llyfrgell wedi cyflwyno dogfen i'r Llywodraeth a oedd yn cynnwys y prif faterion hynny a berai'r mwyaf o bryder i reolwyr a hynny er mwyn i wariant posibl gael ei ystyried ganddynt fel rhan o'r ymarfer cynllunio cyllideb. Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ystyried yr elfennau hynny o fewn y cais sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch. Gwir nad yw'r ffynonellau ariannol yn ddiwaelod ac y bydd cryn gystadlu am yr arian sydd ar gael. Cytunwyd bod angen achub ar unrhyw gyfle i gyflwyno achos y Llyfrgell i'r Dirprwy Weinidog.

Nodwyd ymhellach fod y Llyfrgell, ar wahoddiad y Gweinidog Cyllid, wedi cyflwyno cais o £100k ar gyfer buddsoddi mewn celloedd ffotofoltaidd er cynyddu effeithiolrwydd ynni, gan fod y flaenoriaeth honno wedi'i nodi gan y gweinidog fel maes a fyddai'n cael blaenoriaeth gan y Llywodraeth.

Gwnaed cais yn ogystal am £2.8M ar gyfer datblygu'r cwrt blaen. Roedd y cynllun hwn yn rhan o gais sylweddol cynharach na fu'n llwyddiannus.

Roedd yn dda hefyd gan David Michael nodi bod y prosiect i ddatblygu'r Bloc Technegol a mewnlenni'r clos ar gyfer adleoliad y Comisiwn Brenhinol yn datblygu'n dda iawn a bod y contractwyr yn cadw at yr amserlen.

### **2.3 Rhaglen Partneriaethau Cymunedol Merthyr**

Cyflwynodd Avril Jones adroddiad cynnydd ar statws cyfredol y rhaglen gymunedol ym Merthyr. Dywedwyd mai amcan y Rhaglen yw sefydlu, trwy bartneriaethau, bresenoldeb ffisegol i'r Llyfrgell mewn manau strategol ar draws Cymru. Bydd datblygu presenoldeb cynaliadwy a chydweithredol, meddid, yn hyrwyddo'n gyflym rhwydd fynediad at gynnwys a deunydd diwylliannol a datgloi gwybodaeth er lles cymunedau ac unigolion.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd mynegodd sawl aelod – er iddynt groesawu'r datblygiadau ym Merthyr – eu pryder ynghylch cynladwyedd a chostau'r Rhaglen hon. Mynegodd un aelod hefyd ei ofid ynghylch ystod y gwasanaethau y gallai darparwyr gwasanaethau lleol ofyn i'r Llyfrgell eu darparu, a hynny yn wyneb y ffaith fod awdurdodau lleol yn ei chael hi'n fwyfwy anodd i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth: mae'n bwysig, meddid, mai darpariaeth 'ychwanegol' i'r gwasanaethau hynny a ddarperir yn arferol gan awdurdodau lleol y dylid ei darparu.

Gweithredu: Bydd Avril Jones yn cyflwyno adroddiad cynnydd pellach yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

### **2.4 Adroddiad Archwiliad Mewnol (Marchnata / Hyrwyddo)**

Cyflwynwyd copi o gynllun gweithredol fyddai'n mynd i'r afael â'r prif faterion hynny a arweiniodd at yr adroddiad coch a gyflwynwyd gan yr archwilwyr mewnol. Y prif faterion hynny oedd (a) diffyg strategaeth marchnata a (b) codi arian. Roedd yr adroddiad wedi'i baratoi gan Bennaeth Cysylltiadau Allanol. Croesawyd yr adroddiad a chytunwyd mai'r hyn sydd ei angen nawr yw gweld cynnydd. Serch hynny, nid oedd yr adroddiad yn crybwyll yr adnoddau yr oedd eu hangen i weithredu'r cynllun. Cyflwynir adroddiad cynnydd i gyfarfod nesaf y Bwrdd, ynghyd â chopïau drafft o strategaeth marchnata a chodi arian.

Gweithredu: David Michael i drefnu bod copïau drafft o'r strategaeth marchnata a chodi arian yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

### **2.5 Adolygiad PwC**

Cyflwynodd yr Is-lywydd yr adroddiad cynnydd ar argymhellion PwC a oedd wedi'i baratoi gan yr Ysgrifennydd. Roedd yr Aelodau'n falch o nodi'r cynnydd ac o weld bod y Tasglu wedi mynd i'r afael â'r holl argymhellion.

Nododd Pedr ap Llwyd fod y polisiau a'r gweithdrefnau newydd a oedd wedi'u paratoi wedi'u cyflwyno i'r Undebau a staff fel rhan o broses ymgynghori, a'u bod hefyd wedi'u rhannu gyda'r staff ar fewnwyd y Llyfrgell.

Nododd Pedr ap Llwyd ymhellach mai'r nod yw medru cwblhau'r rhan helaethaf o'r gwaith ar yr argymhellion erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Tachwedd.

Gweithredu: Pedr ap Llwyd i ddarparu adroddiad cynnydd ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd.

## **Adran 3 Materion strategol a phrif bapurau**

### **3.1 Cynnydd y Rhaglen Ailstrwythuro**

Cyflwynwyd adroddiad gan David Michael. Nodwyd bod yr arbedion a wnaed eto'n fyr o'r targed o oddeutu £200k, a chostau codiadau cyflog y dyfodol i'w hychwanegu at y swm hwnnw. O ganlyniad, mae'r Llyfrgell yn fyr o tua £300k o'r arbedion sydd eu hangen i fantoli'r gyllideb sylfaenol. Nodwyd bod yr Adran Cyllid yn cychwyn y broses gyllidebu er mwyn ail-werthuso'r sefyllfa, ac y bydd rhagolygon newydd y sefyllfa yn cael eu cynhyrchu ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd. Fel rhan o'r rhaglen ailstrwythuro, cytunwyd ailwampio sawl maes ym musnes y sefydliad er mwyn gwella effeithiolrwydd a lleihau costau. Y meysydd yw: (1) arddangosfeydd; (2) ystafelloedd darllen; (3) staff sy'n wynebu'r cyhoedd gan gynnwys porthorion; (4) Archif Genedlaethol Sgrin a Sain a (5) System Rheoli'r Llyfrgell. Bydd adroddiad cynnydd ar y meysydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. Y gobaith yw y bydd y meysydd hyn yn dod ag arbedion a fydd yn cyfrannu'n sylweddol at y targed o £300K.

Gweithredu: David Michael ac Avril Jones i ddarparu adroddiad cynnydd ac yn arbennig mewn perthynas â'r meysydd lle y gobeithid gwella effeithiolrwydd a lleihau costau.

### **3.2 Dogfen ffocws**

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd ddogfen neu restr ffocws a allai fod yn ddefnyddiol i Aelodau er mwyn eu hatgoffa o faterion allweddol a phwysig y dydd. Roedd yr Aelodau'n falch iawn o dderbyn hwn ac fe'i gwelant fel erfyn defnyddiol iawn ar gyfer y dyfodol.

### **3.3 Dangosyddion Cyflawni Ebrill – Mehefin 2015**

Nodwyd cynnwys y dangosyddion.

### **3.4 Adroddiad cynnydd Adrannau a Chyfarwyddiaethau**

Nodwyd cynnwys yr adroddiad. Awgrymwyd ei osod ar wefan y Llyfrgell a chaniatáu mynediad cyhoeddus iddo.

### **3.5 Cylch Busnes y Bwrdd**

Nodwyd cylch busnes y Bwrdd a chytunwyd ystyried yn ofalus drefnu cyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd ym mis Rhagfyr a neilltuo'r amser i drafod materion strategol megis cynllun gweithredu'r flwyddyn nesaf ac adolygu'r dangosyddion cyflawni presennol.

Gweithredu: Pedr ap Llwyd a Swyddogion y Bwrdd i ystyried priodoldeb cynnal cyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd cyn diwedd y flwyddyn.

## **Adran 4 Materion ariannol**

### **4.1 Adroddiad cyllidebol hyd 31/08/15**

Nodwyd y sefyllfa ariannol fel ag yr oedd ar 31 Awst 2015. Bydd y gyllideb yn cael ei hail-broffilio'n llawn ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd.

### **4.2 Penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Archwilio**

Cytunwyd ar ailbenodi Wyn Penri Jones yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Archwilio. Er yn absennol o'r Cyfarfod yr oedd wedi mynegi ei barodrwydd i aros ymlaen fel Cadeirydd am gyfnod pellach o ddeuddeg mis yn unig.

### **4.3 Penodi Aelodau Annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio**

Cytunwyd hysbysebu ar gyfer penodi aelodau annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio. Nodwyd hefyd mai priodol fyddai annog unigolion cymwys i ymgeisio.

Gweithredu: Pedr ap Llwyd i roi trefniadau yn eu lle ar gyfer penodi aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio.
---

### **5.1 Materion y Llywydd**

Nododd y Llywydd fod ei gyfnod gwasanaeth yn dod i ben ar 30 Tachwedd. Nododd y Llywydd ymhellach ei fod, ar sawl achlysur, wedi cynnal trafodaethau â swyddogion y Bwrdd a chyda chynghorwyr cyfreithiol y Llyfrgell ynghylch nifer o faterion a hynny ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd. Mynegodd hefyd ei ddiolch i'r Is-lywydd ac i'r Ysgrifennydd am adrodd iddo'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud gan y Tasglu a sefydlwyd yn dilyn cyhoeddi adroddiad PwC.

## **Adran 6 – Diwedd y cyfarfod agored**

Cinio – 12.00pm – 12.30pm